# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-06-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 23 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30 am tan 12.50pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

#### Yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Yr Athro Barwnes Ilora Finlay | Cyfarwyddwr Meddygol - Comisiwn Iechyd Cymru |
| Yr Athro Malcolm Mason | Prif Weithredwr - Comisiwn Iechyd Cymru |
| Yr Athro Tim Maughan | Cadeirydd – Comisiwn Iechyd Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Dr David Salter | Y Prif Swyddog Meddygol Dros dro |
| Christine Daws | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Yr Athro Richard Williams | Cynghorydd Arbennig - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |

### Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Catherine Lewis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

Cytunodd y Cadeirydd a'r Gweinidog ddwyn yr eitem ar y contract Ocsigen ymlaen.

### Eitem 4: Y Contract Ocsigen

Papur: HSS(2)-06-06(p.4);

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r contract ocsigen newydd.

2.2 Gofynnodd y Pwyllgor am bapur gyda manylion y cynllun i ddelio â'r problemau a ddaeth i'r golwg yn ystod wythnosau cyntaf y contract.

### Cam i'w gymryd

Bydd y Gweinidog yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor.

## Eitem 2: Adolygiad Polisi - Gwasanaethau Canser

Papur: HSS(2)-06-06(p.1) & HSS(2)-06-06(p.2);

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Barwnes Ilora Finlay, yr Athro Malcolm Mason a'r Athro Tim Maughan o'r Adran Oncoleg a Gofal Lliniarol ym Mhrifysgol Caerdydd.

3.2 Amlinellodd y tystion y meysydd posibl i'w hystyried yn adolygiad y Comisiwn ac atebwyd cwestiynau gan Aelodau.

3.3 Ystyriodd y Pwyllgor y posibilrwydd o ddefnyddio grwp cyfeirio arbenigol i'w cynghori ar eu hadolygiad.

### Camau i'w cymryd

Bydd y Clerc a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn drafftio'r cylch gorchwyl i'r Pwyllgor ei gymeradwyo.

Cysylltu â'r Athro Mason, yr Athro Finlay a'r Athro Maughan ynglyn â chreu grwp cyfeirio arbenigol.

## Eitem 3: Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Papur: HSS(2)-06-06(p.3);

4.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y cyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref i barhau â Mesur byr i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983.

4.2 Holodd yr Aelodau'r Gweinidog ar ei ddatganiad.

### Camau i'w cymryd

Bydd y Pwyllgor yn craffu ar y Mesur pan gaiff ei gyhoeddi. Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn ag amseru.

## Eitem 5: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth

Papur: HSS(2)-04-06(p5);

5.1 Ni nodwyd unrhyw eitemau eraill i'w hystyried gan y Pwyllgor.

5.2 Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf o ran craffu ar y ddeddfwriaeth bwydydd lles.

**Cam i'w gymryd**

Diweddaru'r rhestr o Is-ddeddfwriaeth o ran amserlen y ddeddfwriaeth Bwydydd Lles.

**Papurau i’w Nodi**

Cyngor Gofal Cymru - Gwybodaeth Ychwanegol
HSS(2)-06-06(p6)

Newidiadau i'r cyllidebau sy'n effeithio ar y Prif Grwp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
HSS(2)-06-06(p7)

6.1 Cododd yr Aelodau bwyntiau i'w hegluro ar y trosglwyddiadau a nodir yn y papur.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2006
HSS(2)-03-06-min

Gwasanaeth y Pwyllgor
Mawrth 2006